OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 37 (Cy. 4)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *16th Ionawr 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *20th Ionawr 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *1st Medi 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 122(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**), a pharagraff 6B(1)(a) o Atodlen 26 iddi, a thrwy arfer y pwerau a roddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 77(2) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000(**2**), a chan adrannau 28(1)(**3**), 50(4)(**4**), 55(4)(**5**) ac 56(3)(**6**) o Ddeddf Addysg 2005(**7**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Medi 2020.

(**1**) 1998 p. 31; *gweler* adran 142(1) am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations". Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol o dan baragraff 6B(1)(a) o Atodlen 26, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac mae'n arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) 2000 p. 21; *gweler* adran 77(9) am y diffiniad o "prescribed" ac adran 74(1) am y diffiniad o "the National Assembly". Trosglwyddwyd swyddogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn adran 77(2), i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) 2005 p. 18; *gweler* adran 31(1) am y diffiniad o "prescribed" a "regulations" ac adran 122(1) am y diffiniad o "the Assembly".

(**4**) *Gweler* adran 50(8) am y diffiniad o "prescribed" ac adran 122(1) am y diffiniad o "the Assembly".

(**5**) *Gweler* adran 55(8) am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations" ac adran 122(1) am y diffiniad o "the Assembly".

(**6**) *Gweler* adran 55(8) am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations" ac adran 122(1) am y diffiniad o "the Assembly".

(**7**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 28, 50, 55 ac 56, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

### Diwygiadau i Reoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001

**2.** Yn rheoliad 2(1)(b) o Reoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001(**8**)—

(a) yn lle "cyfnod o saith mlynedd" rhodder "y cyfnod", a

(b) yn lle "2023" rhodder "2024".

### Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006

**3.** Yn rheoliadau 6(1)(b) a 14(b) o Reoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006(**9**)—

(a) yn lle "cyfnod o saith mlynedd" rhodder "y cyfnod", a

(b) yn lle "2023" rhodder "2024".

### Diwygiadau i Reoliadau Arolygu'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Gwasanaethau Cysylltiedig (Cymru) 2006

**4.** Yn rheoliad 4(1) o Reoliadau Arolygu'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Gwasanaethau Cysylltiedig (Cymru) 2006(**10**)—

(a) yn lle "cyfnod o saith mlynedd" rhodder "y cyfnod", a

(b) yn lle "2023" rhodder "2024".

### Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Arolygu Addysg Feithrin) (Cymru) 2015

**5.** Yn rheoliad 4(1)(b) o Reoliadau Addysg (Arolygu Addysg Feithrin) (Cymru) 2015(**11**)—

(a) yn lle "cyfnod o saith mlynedd" rhodder "y cyfnod", a

(b) yn lle "2023" rhodder "2024".

*Kirsty Williams*
Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru

16th Ionawr 2020

(**8**) O.S. 2001/2501 (Cy. 204), a ddiwygiwyd gan O.S. 2004/783 (Cy. 80), O.S. 2005/3238 (Cy. 243), O.S. 2010/1436 (Cy. 127), O.S. 2014/1212 (Cy. 128) ac O.S. 2016/135 (Cy. 65).
(**9**) O.S. 2006/1714 (Cy. 176), a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/1142 (Cy. 101), O.S. 2010/1436 (Cy. 127), O.S. 2014/1212 (Cy. 128), O.S. 2016/135 (Cy. 65), O.S. 2016/211 (Cy. 84) ac O.S. 2017/710 (Cy. 167).
(**10**) O.S. 2006/3103 (Cy. 286), a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/1436 (Cy. 127), O.S. 2014/1212 (Cy. 128) ac O.S. 2016/135 (Cy. 65).
(**11**) O.S. 2015/1599 (Cy. 198), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/135 (Cy. 65) ac O.S. 2016/211 (Cy. 84).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau a ganlyn ("y Rheoliadau Arolygu")—

(a) Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001,

(b) Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006,

(c) Rheoliadau Arolygu'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Gwasanaethau Cysylltiedig (Cymru) 2006, a

(d) Rheoliadau Addysg (Arolygu Addysg Feithrin) (Cymru) 2015.

Ar hyn o bryd, mae'r Rheoliadau Arolygu yn ei gwneud yn ofynnol i Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru neu Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales gynnal arolygiad o leiaf unwaith o fewn y cyfnod o 7 mlynedd sy'n dechrau ar 1 Medi 2016 ac sy'n dod i ben ar 31 Awst 2023 ("y Cyfnod Arolygu Cyntaf") ac o leiaf unwaith o fewn pob cyfnod arolygu o 6 mlynedd wedi hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Cyfnod Arolygu Cyntaf ym mhob un o'r Rheoliadau Arolygu fel y bydd yn dod i ben ar 31 Awst 2024 yn lle 31 Awst 2023. Bydd pob arolygiad wedi hynny yn parhau i gael ei gynnal unwaith ym mhob cyfnod arolygu o 6 mlynedd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.